# Telerau ac Amodau Cyffredinol: Gwasanaethau Ogi i'r Cartref

**Dyddiedig: 17.01.2025**

Mae'r telerau a'r amodau hyn yn cyflwyno'r cytundeb rhyngot ti a ni ar gyfer darparu dy Wasanaethau Band Eang Ogi neu dy Wasanaethau Band Eang Alt Ogi, fel sy'n berthnasol. Mae'r telerau a'r amodau hyn hefyd yn berthnasol i ddarparu Gwasanaethau Llais Ogi, os byddi di wedi dewis cael ein Gwasanaeth Llais Ogi hefyd.

Mae'r telerau a'r amodau hyn yn berthnasol i'r modd y byddi di'n defnyddio'r Gwasanaethau. Darllena'r telerau a'r amodau hyn yn ofalus gan fod gwybodaeth bwysig ynddyn nhw.

## 1. Diffiniadau

**"Canllaw Prisiau"** – ystyr hyn yw'r prisiau sy'n berthnasol i'r gwasanaethau ac a nodir ar ein gwefan, fel y'u diwygir o dro i dro.

**"Crynodeb Gwybodaeth am Gontract"** yw'r ffurflen a anfonir fel rhan o'n rhwymedigaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy cyn i chi lofnodi eich archeb. Mae hyn yn nodi faint y bydd eich prisiau craidd yn cynyddu bob 1 Ebrill.

**"Cwmnïau Grŵp Spectrum Fibre"** – ystyr hyn yw un o is-gwmnïau neu gwmnïau daliannol Spectrum Fibre Ltd, neu un o is-gwmnïau'r cwmnïau daliannol hynny, yn unol â diffiniad adran 1159 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

**"Cwsmer"** – ystyr hyn yw'r unigolyn, y grŵp o unigolion neu'r endid arall y mae ei enw a'i gyfeiriad ar y Ffurflen Archebu.

**"Cyfarpar"** – ystyr hyn yw'r cyfarpar a enwir yn Atodiad 1 os wyt ti'n cael Gwasanaeth Band Eang Ogi neu'r cyfarpar a enwir yn Atodiad 2 os wyt ti'n cael Gwasanaeth Band Eang Alt Ogi, a phan fyddi di wedi dewis cael Gwasanaethau Llais Ogi, y cyfarpar hefyd a enwir yn Atodiad 3, a'r cyfarpar hwnnw'n cael ei roi gennyn ni i ti er mwyn darparu'r Gwasanaethau. "Cytundeb Offer Lluddedig" yw'r ddogfen a geir mewn Adran Telerau ac Amodau o'n Gwefan

**"Cytundeb"** – ystyr hyn yw'r telerau a'r amodau hyn, y Ffurflen Archebu, Polisi Defnydd Derbyniol Ogi, y Cytundeb Offer Lluddedig a Pholisi Preifatrwydd Ogi o'u cymryd ynghyd, ac os byddan nhw'n groes i'w gilydd, maen nhw i'w dilyn yn ôl y drefn flaenoriaeth uchod.

**"Diwrnod Busnes"** – ystyr hyn yw 08:00-18:00 o ddydd Llun tan ddydd Gwener heb gynnwys gwyliau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr.

**"Dyddiad Cychwyn"** – ystyr hyn yw'r dyddiad y byddwn ni'n derbyn dy Ffurflen Archebu.

**"Dyddiad Gweithredol y Gwasanaeth"** – ystyr hyn yw'r dyddiad pan fydd Gwasanaeth ar gael am y tro cyntaf i'r Cwsmer ei ddefnyddio.

**"Ffurflen Archebu"** – ystyr hyn yw'r ffurflen ar gyfer cyflenwi Gwasanaethau gennyn ni, a honno wedi'i llenwi gennyt ti, neu'n unol â ffurflen archebu gennyt ti.

**"Gwasanaeth Band Eang Alt Ogi"** – ystyr hyn yw gwasanaeth band eang a ddarperir gennyn ni i ti drwy'r rhwydwaith Openreach, fel a ddisgrifir yn Atodiad 2.

**"Gwasanaeth Band Eang Ogi"** – ystyr hyn yw gwasanaeth band eang a ddarperir gennyn ni i ti gan ddefnyddio ein rhwydwaith ffeibr llawn, fel a ddisgrifir yn Atodiad 1.

**"Gwasanaethau Llais Ogi"** – ystyr hyn yw darparu gwasanaeth llais dros y rhyngrwyd gennyn ni i ti, fel a ddisgrifir yn Atodiad 3.

**"Gwasanaethau"** – ystyr hyn yw Gwasanaethau Band Eang Ogi neu Wasanaethau Band Eang Alt Ogi, a phan fydd hynny'n berthnasol, Gwasanaethau Llais Ogi, fel yr amlinellir ar y Ffurflen Archebu.

**"Gwybodaeth Gyfrinachol"** – ystyr hyn yw'r holl wybodaeth y byddwn ni neu y byddi di'n ei datgelu i'r parti arall, boed cyn neu ar ôl y Diwrnod Cychwyn, ac y dylai'r derbynnydd ddeall yn rhesymol ei bod yn gyfrinachol, gan gynnwys: (i) yn dy achos di, yr holl wybodaeth a drosglwyddir i'r Gwasanaethau neu o'r Gwasanaethau (gan gynnwys meddalwedd a chyfarwyddiadau), (ii) yn ein hachos ni, prisiau heb eu cyhoeddi a thelerau eraill gwasanaethau, adroddiadau archwilio a diogelwch, cynlluniau datblygu cynnyrch, diagramau datrys, dyluniadau canolfannau data, a gwybodaeth neu dechnoleg arall sy'n ymwneud ag eiddo, a (iii) yn achos y naill barti a'r llall, gwybodaeth sydd wedi'i marcio fel gwybodaeth gyfrinachol, neu sydd wedi'i dynodi'n amlwg mewn modd arall fel gwybodaeth gyfrinachol.

Ni fydd gwybodaeth a ddatblygir yn annibynnol gan y naill barti neu'r llall, heb gyfeiriad at Wybodaeth Gyfrinachol y parti arall, na gwybodaeth a ddaw ar gael i'r naill barti neu'r llall mewn modd nad yw'n groes i'r Cytundeb neu'r gyfraith berthnasol, yn "Wybodaeth Gyfrinachol" i'r parti arall.

**"Gwybodaeth y Cwsmer"** – ystyr hyn yw data, gwybodaeth, fideos, graffeg, sain, cerddoriaeth, ffotograffau, meddalwedd ac unrhyw ddeunyddiau eraill (ym mha bynnag ffurfiau) a gyhoeddir neu a ddaw ar gael mewn modd arall (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) i'r Cwsmer, neu ar ran y Cwsmer, drwy ddefnyddio'r Gwasanaethau.

**"Meddalwedd"** – ystyr hyn yw unrhyw feddalwedd a ddarperir gennyn ni i dy alluogi i ddefnyddio'r Gwasanaethau.

**"y Mynegai Prisiau Defnyddwyr"** – ystyr hyn yw cyfradd y mynegai prisiau defnyddwyr, sy'n mesur chwyddiant prisiau defnyddwyr yn unol â safonau rhyngwladol a'r rheoliadau Ewropeaidd.

**"Ni"** – ystyr hyn yw Ogi a dylai cyfeiriadau at y gair 'ein' gael eu deall yn yr un modd.

**"Ogi"** – ystyr hyn yw unrhyw un neu bob un o'r endidau canlynol:

> Spectrum Fibre Limited yn masnachu fel Ogi, wedi'i ymgorffori a'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr gyda'r rhif cwmni 12883320 a'i swyddfa gofrestredig yn Hodge House, 114-116, Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1DY. Rhif cofrestru TAW 377 9433 45.
>
> Spectrum Internet Limited yn masnachu fel Ogi, wedi'i ymgorffori a'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr gyda'r rhif cwmni 07849485 a'i swyddfa gofrestredig yn Hodge House, 114-116, Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1DY. Rhif cofrestru TAW 126873689.
>
> Ogi Networks Limited yn masnachu fel Ogi, wedi'i ymgorffori a'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr gyda'r rhif cwmni 03625793 a'i swyddfa gofrestredig yn Hodge House, 114-116, Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1DY. Rhif cofrestru TAW 713629048.

**"Polisi Defnydd Derbyniol" –** ystyr hyn polisi defnydd derbyniol Ogi sy'n ymwneud â defnyddio'r Gwasanaethau fel y byddan nhw'n cael eu haddasu o dro i dro.

**"Polisi Preifatrwydd Ogi"** – ystyr hyn yw polisi preifatrwydd Ogi, sydd ar gael wedi'i addasu o dro i dro.

**"Ti"** – ystyr hyn yw'r Cwsmer a dylai cyfeiriadau at y gair 'dy' gael eu deall yn yr un modd.

**"Tymor y Contract"** – ystyr hyn yw isafswm hyd y gwasanaeth, sef 12 neu 24 mis, a geir ar y Ffurflen Archebu ac sy'n dechrau ar Ddyddiad Gweithredol y Gwasanaeth.

## 2. Cychwyn

2.1 Mae'r Cytundeb hwn yn pennu'r telerau a'r amodau cyflenwi cyffredinol y byddwn ni'n eu defnyddio'n sail ar gyfer cyflenwi Gwasanaethau i ti.

2.2 Bydd y Cytundeb hwn yn dod i rym ar y dyddiad y byddwn ni'n derbyn y Ffurflen Archebu drwy Ein Sianeli Gwerthu neu drwy ddull ysgrifenedig arall, a bydd yn parhau mewn grym oni bai a than y caiff ei derfynu yn unol â'i delerau.

## 3. Cyfnod y Gwasanaeth

3.1 Ar wahân i lle dynodir hynny'n wahanol ar y Ffurflen Archebu, bydd y Gwasanaethau'n cael eu darparu am Dymor y Contract.

3.2 Byddwn ni'n cysylltu â thi tua mis cyn diwedd Tymor y Contract i roi gwybod i ti bod Tymor y Contract ar fin dod i ben. Os na fyddi di'n tanysgrifio i gytundeb newydd gyda ni nac yn terfynu'r Cytundeb, bydd y Gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu o dan delerau'r Cytundeb hwn. Byddwn ni wedyn yn cysylltu â thi o leiaf unwaith y flwyddyn i roi gwybod i ti am brisiau gorau Ogi sydd ar gael yn dy ardal di.

## 4. Ein Rhwymedigaethau Ni

4.1 Byddwn ni'n darparu'r Gwasanaethau'n unol â'r Atodiadau perthnasol i'r Cytundeb hwn ac unrhyw fanylion eraill yn y Cytundeb hwn. Os wyt ti'n Gwsmer Gwasanaeth Band Eang Ogi, mae Atodiad 1 yn berthnasol. Os wyt ti'n Gwsmer Gwasanaeth Band Eang Alt Ogi, mae Atodiad 2 yn berthnasol. At hynny, os wyt ti'n Gwsmer Llais Ogi, bydd Atodiad 3 yn berthnasol.

4.2 Byddwn ni'n gwneud ymdrech resymol i ddarparu'r Gwasanaethau o fewn yr amserlen a roddwyd i ti. Amcangyfrifon yw'r holl ddyddiadau a byddwn ni'n gwneud ymdrech resymol i dy ddiweddaru ynghylch unrhyw newidiadau i ddyddiad gweithredol disgwyliedig y Gwasanaethau. Nid ydyn ni'n atebol am unrhyw fethiant i gyflawni erbyn unrhyw ddyddiad.

4.3 Ein nod yw darparu gwasanaeth di-dor ond o dro i dro gall rhywbeth fynd o'i le. Byddwn ni'n gwneud ymdrech resymol i atgyweirio unrhyw ddiffygion yn unol â darpariaethau Atodiadau 1, 2 a 3, fel sy'n berthnasol.

4.4 Byddwn ni'n darparu'r holl Wasanaethau'n unol â'r gyfraith berthnasol.

## 5. Dy Rwymedigaethau Di

5.1 Rhaid i ti gymryd rhagofalon diogelwch rhesymol wrth ddefnyddio'r Gwasanaethau.

Ogi yw enw masnachu: Spectrum Fibre Limited, a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 12883320. Spectrum Internet Limited, a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 07849485. Ogi Networks Limited a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 03625793. Swyddfa gofrestredig: Tŷ Hodge, 114-116 Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF10 1DY

5.2 Ni fyddi di ar unrhyw adeg yn ceisio ochrgamu unrhyw elfennau diogelwch yn y system nac yn ceisio cael mynediad heb awdurdod i unrhyw elfen yn y Gwasanaethau.

5.3 Rwyt ti'n gwarantu bod Gwybodaeth y Cwsmer yn gywir, ac y bydd yn parhau'n gywir, ac na fydd yn cynnwys unrhyw wybodaeth na deunydd lle byddai gweld neu ddefnyddio unrhyw ran o'r rheini yn drosedd neu fel arall yn anghyfreithlon. Yn benodol, rwyt ti'n gwarantu bod yr holl drwyddedau a chydsyniadau angenrheidiol wedi'u sicrhau (yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r rheini sydd gan berchnogion hawlfreintiau neu'r rheini sy'n ymwneud â hawliau perfformio). At hynny, rwyt ti'n cadarnhau bod perchennog y cartref neu landlord yr eiddo lle mae'r Gwasanaethau i'w darparu wedi rhoi caniatâd i ni ac i'n partneriaid gosod fynd ati i osod, gweithredu a chynnal a chadw'r Cyfarpar yn yr eiddo hwnnw

5.4 Ni ddylet ddefnyddio'r Gwasanaethau na chaniatáu i'r Gwasanaethau gael eu defnyddio mewn ffordd nad yw'n cydymffurfio â thelerau unrhyw ddeddfwriaeth neu unrhyw drwydded sy'n berthnasol i ti neu sydd mewn unrhyw ffordd yn anghyfreithlon.

5.5 Byddi di'n cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau rhesymol a gei gennyn ni mewn perthynas â'r Gwasanaethau neu'r Cyfarpar pan fyddwn ni wedi rhoi'r rheini am resymau iechyd a diogelwch neu i warchod ansawdd y Gwasanaethau a ddarperir i ti neu i unrhyw gwsmer arall.

5.6 Byddi di'n cymryd gofal rhesymol o'r Cyfarpar ac yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau ar gyfer cynnal a chadw a defnyddio a geir yn Atodiadau 1, 2 a 3, fel sy'n berthnasol. Byddi di'n rhoi ad-daliad i ni am golli neu ddifrodi unrhyw Gyfarpar pan achosir hynny gan dy fethiant i gydymffurfio â gofynion y cymal hwn, sef cymal 5.6, neu ofynion yr atodiadau perthnasol.

## 6. Newidiadau i'r Cytundeb hwn

6.1 O 1 Ebrill bob blwyddyn efallai y byddwn yn cynyddu'r swm rydych yn ei dalu yn unol â'r tabl cynyddu contract canol tymor ar eich crynodeb o wybodaeth am gontract.

6.2 Gallwn gynyddu'r swm sy'n daladwy gennyt ti am unrhyw Wasanaethau drwy roi mis calendr o rybudd yn ysgrifenedig i ti, gyda chyfnod rhybudd o'r fath i ddod i ben pan ddaw Tymor y Contract i ben neu ar ôl iddo ddod i ben. Os byddi di'n gwrthwynebu i gynnydd o'r fath, mae gennyt hawl i derfynu'r Cytundeb hwn yn unol â chymal 11.3. Os byddi di'n rhoi gwybod i ni dy fod yn terfynu'r Cytundeb cyn i'r cyfnod Un Mis o rybudd ryn ni wedi'i roi i ti ddod i ben, ni fyddwn yn cynyddu'r swm sy'n daladwy cyn terfynu'r Cytundeb.

6.3 Ryn ni'n cadw'r hawl i addasu telerau ac amodau'r Cytundeb hwn. Pan fydd hyn yn digwydd, byddwn ni'n rhoi gwybod i ti ymlaen llaw cyn i'r newidiadau i'r telerau a'r amodau ddod i rym. Gallwn wneud newidiadau am y rhesymau canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain:

(a) cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth, penderfyniad neu gais cyfreithiol neu reoleiddiol;

(b) newid yr amodau sy'n ymwneud â Gwasanaeth er mwyn adlewyrchu newidiadau i gontractau a orfodir arnon ni gan ein Cyflenwyr;

(c) cyflwyno cynhyrchion newydd, nodweddion Gwasanaeth gwell, amrywiadau sy'n angenrheidiol o ganlyniad i unrhyw gyfraith neu reoliad newydd neu sy'n ofynnol gan unrhyw reoleiddiwr neu awdurdod cymwys arall;

(d) cyflwyno newidiadau i brosesau (gan gynnwys newidiadau i'r Polisi Defnydd Derbyniol), a bwrw nad yw hynny'n dy roi dan anfantais;

(e) cynnal cyfanrwydd neu ddiogelwch y Gwasanaeth neu unrhyw rwydwaith;

(f) gwella eglurder, neu gywiro camgymeriadau argraffu;

(g) newid y prosesau a'r gweithdrefnau a amlinellir mewn unrhyw Atodiad perthnasol.

6.4 Byddwn ni'n ceisio rhoi rhybudd i ti ynghylch unrhyw newid o leiaf 30 diwrnod calendr cyn iddo ddigwydd, ac eithrio lle bydd cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol neu reoleiddiol yn golygu bod angen cyfnod byrrach o rybudd neu ddim rhybudd.

6.5 Yn achos newidiadau i'r Cytundeb hwn a wneir o dan gymal 6.3, ni fydd newidiadau o'r fath yn golygu bod angen i ti a ni lofnodi Cytundeb newydd, a bydd y newidiadau'n dod i rym pan ddaw unrhyw rybudd a ddarperir o dan gymal 6.4 i ben, neu ar unwaith os na rhoddir rhybudd.

6.6 O dro i dro gallwn roi cynigion i ti ar gyfer gwasanaethau profi a threialu a/neu gynigion hyrwyddo ("Cynigion"). Gall telerau ac amodau penodol fod yn gysylltiedig â Chynigion o'r fath ("Telerau ac Amodau Hyrwyddo"). Gall fod angen amrywio'r Cytundeb hwn o dan Delerau ac Amodau Hyrwyddo ac mewn achos o'r fath ystyrir dy fod wedi derbyn amrywiad o'r fath wrth dderbyn y Cynnig. Oni bai y datgenir hynny'n wahanol yn y Telerau ac Amodau Hyrwyddo, gallwn ni ddiwygio neu dynnu unrhyw gynnig yn ôl ar unrhyw adeg a heb rybudd. I osgoi amheuaeth, nid oes rhwymedigaeth arnon ni i dy gynnwys di mewn unrhyw Gynnig a wneir i gwsmeriaid eraill. Oni bai y caniateir hynny'n benodol o dan delerau cynnig hyrwyddo penodol, nid yw cwsmeriaid presennol a chyn-gwsmeriaid, o dan yr un enwau neu enwau gwahanol, yn gymwys ar gyfer unrhyw gynnig hyrwyddo sy'n benodol ar gyfer cwsmeriaid newydd.

## 7. Taliadau

7.1 Ac eithrio lle pennir hynny'n wahanol yn y Cytundeb hwn, bydd pob taliad a swm arall sy'n ddyledus gennyt mewn perthynas â'r Gwasanaethau wedi'u nodi ar y Ffurflen Archebu a'r Canllaw Prisiau. Bydd y ffioedd gosod a'r taliadau misol sy'n berthnasol i ti o dan y Cytundeb hwn yn amrywio yn dibynnu ar hyd dy Gytundeb â ni ac maen nhw wedi'u pennu ar y Ffurflen Archebu a'r Canllaw Prisiau.

7.2 Os wyt ti wedi dewis cael Gwasanaethau Llais Ogi, bydd taliadau newidiol sy'n deillio o'r gwasanaeth hwn yn ymddangos ar dy fil misol.

7.3 Bydd y cyfnod codi tâl yn dechrau ar Ddyddiad Gweithredol y Gwasanaeth neu fel y pennir fel arall ar y Ffurflen Archebu.

7.4 Rhaid i ti dalu'r taliadau (heb ostyngiad na didyniad o unrhyw fath) fel y pennir ar dy fil misol, ar sail fisol, fel y manylir ar y Ffurflen Archebu, neu os nad oes rhai wedi'u manylu, yn y Canllaw Prisiau. Pan na wneir taliad yn unol â'r telerau hyn, gallwn godi ffioedd am daliadau hwyr fel y rhestrir hwy yn ein Canllaw Prisiau.

## 8. Bilio

8.1 Bydd dy fil yn cael ei anfon i dy gyfeiriad e-bost (oni bai dy fod wedi gofyn am fil papur, am gost ychwanegol) a bydd yn cynnwys yr holl daliadau sy'n berthnasol i'r cyfnod hwn, gan gynnwys dy gostau band eang, a lle bydd hynny'n berthnasol, unrhyw ffioedd Gwasanaeth Llais Ogi.

8.2 Bydd ein biliau ar gyfer cyfnod o 1 mis, ar wahân i dy fil cyntaf, a fydd ar gyfer y cyfnod o'r dyddiad pan fydd y gwasanaeth yn dechrau i ddiwedd y mis canlynol.

8.3 Bydd y swm ar bob bil yn cael ei ddebydu o'r cyfrif rwyt ti wedi'i enwi drwy ddebyd uniongyrchol ar y dyddiad a enwir ar y bil, neu o amgylch y dyddiad hwnnw.

8.4 Bydd unrhyw ostyngiadau wedi'u dangos ar dy fil gyda disgrifiad, a byddwn hefyd yn esbonio a yw'n ostyngiad untro neu'n ostyngiad sy'n cael ei roi bob tro.

8.5 Os wyt ti'n pryderu am dy fil, cysyllta â'n tîm Gofal Cwsmeriaid drwy anfon e-bost i billing@ogi.wales neu ffonia 029 2002 8149. I gael help i ddeall dy fil, cer i www.ogi.cymru/cwsmeriaid/.

## 9. Gwerthu o Bell a Dy Hawl i Ganslo

9.1 Mae gennyt hawl i ganslo'r Cytundeb o fewn 14 diwrnod i'r Dyddiad Cychwyn heb roi unrhyw reswm, yn unol â Rheoliadau Contractau Defnyddwyr 2013.

9.2 I arfer yr hawl i ganslo, rhaid i ti roi gwybod i ni am dy benderfyniad mewn datganiad clir, naill ai drwy ffonio 029 2002 0520 neu drwy anfon e-bost i sales@ogi.wales neu drwy anfon llythyr at Ogi, Hodge House, 114-116 Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1DY. Fe elli di ganslo hefyd drwy lenwi'r ffurflen ar ein gwefan.

9.3 Ni fyddwn yn cychwyn darparu'r Gwasanaeth tan y bydd y cyfnod canslo 14 diwrnod wedi dod i ben. Cyfrifir amcangyfrif o'r amseroedd arwain o ddiwedd y cyfnod 14 diwrnod hwn. Serch hynny, gelli di wneud cais yn ystod y broses archebu am gyflenwi'r Gwasanaeth yn gynnar, ac os byddi di'n gwneud cais o'r fath, byddwn ni'n cychwyn darparu'r Gwasanaethau yn ystod y cyfnod canslo 14 diwrnod.

9.4 Os cyflenwir y Gwasanaethau'n gynnar yn unol â chais gennyt ti, ac os byddi di'n arfer dy hawl i ganslo'r Cytundeb, byddwn ni'n codi tâl arnat am y Gwasanaethau sydd wedi'u defnyddio hyd at y dyddiad pan fyddi di'n rhoi gwybod i ni dy fod yn canslo'r Cytundeb hwn ac am y costau gosod y byddwn wedi'u hysgwyddo. Mae manylion y costau gosod i'w gweld yn y Canllaw Prisiau.

## 10. Atal y Gwasanaethau

10.1 Gallwn atal y Gwasanaethau heb atebolrwydd i ti yn y sefyllfaoedd hyn:

(a) os byddwn ni'n credu'n rhesymol bod y Gwasanaethau'n cael eu defnyddio'n groes i'r Cytundeb hwn;

(b) os na fyddi di'n cydymffurfio ag ymchwiliad rhesymol gennyn ni i achos posibl o dorri'r Cytundeb hwn;

(c) os bydd ymosodiad ar y Gwasanaethau, neu os bydd trydydd parti yn defnyddio neu'n trin y Gwasanaethau heb dy gydsyniad di;

(d) os na fyddwn yn cael taliadau gennyt ti'n unol â'r Cytundeb hwn;

(e) os bydd y gyfraith neu reoliadau neu gorff llywodraethol yn ei gwneud yn ofynnol i ni atal y Gwasanaethau;

(f) os byddi di'n gweithredu'n groes i'n Polisi Defnydd Derbyniol; neu

(g) os bydd digwyddiad arall a ninnau'n credu'n rhesymol bod angen atal y Gwasanaethau er mwyn diogelu rhwydwaith Ogi neu ein cwsmeriaid eraill.

10.2 Byddwn ni'n rhoi rhybudd ymlaen llaw o unrhyw gamau i atal y Gwasanaethau o dan y cymal hwn, sef rhybudd fan lleiaf o ddau (2) Ddiwrnod Busnes oni bai ein bod yn penderfynu yn ein barn fasnachol resymol bod angen atal y Gwasanaethau gyda rhybudd byrrach neu rybudd yn y fan a'r lle i ddiogelu ein systemau neu ein cwsmeriaid eraill rhag risg weithredol, risg gyfreithiol neu risg ddiogelwch sy'n sylweddol ac ar fin digwydd.

10.3 Yn ystod unrhyw gyfnod lle caiff y Gwasanaethau eu hatal, byddi di'n cytuno i barhau i dalu ac i fod yn atebol am yr holl daliadau yn unol â'r Cytundeb hwn. Dim ond drwy roi rhybudd i derfynu yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn a thrwy dalu unrhyw ffioedd terfynu perthnasol y gellir osgoi unrhyw daliadau o'r fath pan fydd y Gwasanaethau wedi'u hatal.

10.4 Os byddwn ni'n atal y Gwasanaethau oherwydd dy fod wedi gweithredu'n groes i'r Polisi Defnydd Derbyniol, oherwydd nad yw taliad wedi dod i law, neu oherwydd bod y Gwasanaethau wedi'u peryglu yn sgil y modd rwyt ti wedi defnyddio'r Gwasanaeth, ryn ni'n cadw'r hawl i godi tâl ailgysylltu yn unol â'n Canllaw Prisiau a rhaid talu hwn yn llawn cyn i'r Gwasanaethau gael eu hadfer. Mae swm taliadau o'r fath yn amrywio yn dibynnu ar y Gwasanaeth a lle bydd hynny'n bosibl byddwn ni'n eu darparu i ti ymlaen

llaw cyn mynd ati i atal Gwasanaethau.

10.5 Os byddwn ni'n atal y Gwasanaethau gan fod y Gwasanaethau wedi'u peryglu o ganlyniad i systemau sy'n eiddo i ti neu'n cael eu rheoli gennyt ti, neu o ganlyniad i dy ddefnydd o'r Gwasanaethau, rhaid i ti gael gwared ar y perygl hwn cyn i ni roi'r gorau i gymryd unrhyw gamau atal o'r fath. Ar dy gais di, efallai y gallwn gyflawni'r gwaith hwn ar dy ran, gan godi ein cyfraddau safonol fesul awr.

## 11. Terfyn

11.1 Bydd y Cytundeb hwn yn cychwyn ar y Dyddiad Cychwyn a bydd yn parhau mewn grym llawn ac ag effaith lawn tan y byddi di'n ei derfynu neu tan y byddwn ni'n ei derfynu yn unol â'i delerau.

11.2 Gallwn derfynu'r Cytundeb am weithredu'n groes iddo yn y sefyllfaoedd hyn:

(a) os bydd y wybodaeth a ddarperir gennyt at ddibenion sefydlu'r Gwasanaethau yn sylweddol anghywir neu anghyflawn;

(b) os nad oedd gan yr unigolyn a lofnododd y Cytundeb neu'r Ffurflen Archebu yr awdurdod cyfreithiol i ymrwymo i'r Cytundeb ar dy ran;

(c) os bydd y taliad am unrhyw swm y biliwyd amdano sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau yn hwyr o dan ein proses taliadau hwyr, sydd wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan;

(d) os na fyddi di'n cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth arall a ddatgenir yn y Cytundeb, a lle bydd modd gwneud iawn am y methiant hwn, os na fyddi di'n gwneud iawn am y methiant o fewn deg niwrnod busnes ar hugain (30) i gael rhybudd ysgrifenedig gennyn ni'n disgrifio'r methiant hwnnw ac yn gofyn i ti wneud iawn amdano;

(e) os byddi di'n gweithredu'n groes i unrhyw ddarpariaeth yn y Polisi Defnydd Derbyniol fwy nag unwaith hyd yn oed os gwneir iawn am hynny; neu

(f) os bydd unrhyw gytundeb arall sydd gennyt ti â ni am wasanaethau eraill yn cael ei derfynu am weithredu'n groes i'r polisi defnydd derbyniol sy'n berthnasol i'r gwasanaeth hwnnw.

11.3 Gelli di neu fe allwn ni derfynu'r Cytundeb drwy roi mis o rybudd ysgrifenedig i'r parti arall. Os byddi di am derfynu'r Gwasanaethau, anfona e-bost i renewals@ogi.wales neu ysgrifenna at Ogi, Hodge House, 114-116 Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1DY.

11.4 Os byddi di'n terfynu'r Cytundeb am unrhyw reswm yn ystod Tymor y Contract, rhaid i ti dalu taliad terfynu i ni sy'n cyfateb i 100% o'r taliadau a fyddai wedi bod yn daladwy yn ystod gweddill Tymor y Contract.

11.5 Os bydd marwolaeth yn y teulu sy'n galw am derfynu'r Gwasanaeth, gall y sawl sy'n

gweithredu ar ran y Cwsmer derfynu'r Cytundeb heb gost a thrwy ddychwelyd unrhyw gyfarpar i ni. Gallan nhw hefyd, os byddwn ni'n cytuno i hynny, drosglwyddo'r Cytundeb i unigolyn arall, ar yr un telerau, ac heb gost.

## 12. Symud Tŷ

12.1 Os byddi di'n symud tŷ, efallai y bydd modd i ti symud dy wasanaeth i gyfeiriad newydd er mwyn lleihau'r drafferth a pheidio â cholli'r gwasanaeth. Bydd ein gallu i wneud hyn yn dibynnu ar ba ardal rwyt ti'n symud iddi, ac ar natur y gwasanaeth rwyt ti'n ei gael ar hyn o bryd gennyn ni. Efallai y bydd angen codi ffi gosod arnat am roi cysylltiad newydd yn dy gyfeiriad newydd.

12.2 Os na fyddi di'n dewis cael pecyn newydd gennyn ni neu os nad oes modd i ni ddarparu Gwasanaeth i ti yn dy eiddo newydd, bydd ein telerau safonol ar gyfer terfynu'n berthnasol. Gweler cymal 11.

## 13. Cyfyngiadau ar Atebolrwydd

13.1 Nid ydyn ni'n atebol o dan gontract, cyfraith camweddau (gan gynnwys esgeulustod) nac fel arall am golledion, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, mewn perthynas â busnes, refeniw neu elw, arbedion disgwyliedig neu wariant a wastraffwyd, nac am lygru neu ddinistrio data, am niweidio enw da, nac am unrhyw golledion anuniongyrchol neu ganlyniadol sy'n deillio o dy ddefnydd o'r Gwasanaethau neu o dy anallu i ddefnyddio'r Gwasanaethau.

13.2 Ni fydd dim yn y Cytundeb hwn yn eithrio dy atebolrwydd di na'n

hatebolrwydd ni am:

(a) anaf personol neu farwolaeth a achosir gan esgeulustod; neu

(b) unrhyw dwyll neu gamliwio twyllodrus.

13.3 Rwyt ti'n cydnabod bod unrhyw Wasanaethau a gyflenwir wedi'u bwriadu ar gyfer defnydd personol nad yw'n fasnachol. Gan hynny, nid yw'r Gwasanaethau'n addas i'w defnyddio mewn unrhyw system lle gallai methiant system o'r fath arwain at sefyllfa sy'n bygwth diogelwch bywydau pobl. Ti sy'n llwyr gyfrifol am unrhyw ddefnydd ac atebolrwydd dilynol sy'n deillio o ddefnydd o'r fath, ac mae pob atebolrwydd ar ein rhan ni, boed o dan gontract, cyfraith camweddau neu fel arall mewn perthynas â hynny, wedi'i eithrio, yn amodol ar Gymal 13.2.

13.4 O dro i dro gallwn argymell meddalwedd trydydd parti neu gynhyrchion a gwasanaethau eraill i ti eu hystyried. Nid ydyn ni'n cyflwyno unrhyw achos nac yn gwneud gwarantau o unrhyw fath ynghylch y cynhyrchion a'r gwasanaethau hynny. Os byddi di'n defnyddio unrhyw gynhyrchion a gwasanaethau na ddarperir gennyn ni, bydd telerau unrhyw gytundeb gyda darparwr y cynhyrchion a'r gwasanaethau hyn yn

Ogi yw enw masnachu: Spectrum Fibre Limited, a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 12883320. Spectrum Internet Limited, a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 07849485. Ogi Networks Limited a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 03625793. Swyddfa gofrestredig: Tŷ Hodge, 114-116 Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF10 1DY

llywodraethu hynny, a dy risg di yn llwyr yw hyn. Nid ydyn ni'n gyfrifol mewn unrhyw ffordd am berfformiad, nodweddion neu fethiannau cynnyrch y trydydd parti.

## 14. Indemniad

14.1 Byddwn ni'n dy indemnio yn erbyn hawliadau neu achosion cyfreithiol a gaiff eu dwyn yn dy erbyn gan drydydd parti, sy'n deillio o esgeulustod neu dor-cyfraith gwirioneddol neu honedig ar ein rhan ni. Byddi di'n ein hysbysu ynghylch unrhyw hawliadau o'r fath ac yn rhoi gwybod i ni am ddatblygiad unrhyw hawliadau neu achosion o'r fath.

14.2 Mae ein hatebolrwydd o dan yr indemniad hwn yn amodol ar dy fod yn cyflawni'r rhwymedigaethau canlynol:

14.2.1 Os bydd unrhyw drydydd parti yn gwneud hawliad, neu'n rhoi gwybod o'i fwriad i wneud hawliad, yn dy erbyn ac y gellid yn rhesymol ystyried y byddai hynny'n debygol o arwain at atebolrwydd o dan yr indemniad hwn (Hawliad), byddi di'n gwneud y canlynol:

(a) cyn gynted ag y mae hynny'n rhesymol ymarferol, ein hysbysu'n ysgrifenedig ynghylch yr Hawliad, gan roi manylion rhesymol am yr Hawliad;

(b) peidio â derbyn unrhyw atebolrwydd na gwneud unrhyw gytundeb na chyfaddawd mewn perthynas â'r Hawliad heb ein cydsyniad ysgrifenedig ni ymlaen llaw (ni fydd unrhyw amodau afresymol yn berthnasol i gydsyniad o'r fath, ni fydd yn cael ei ddal yn ôl yn afresymol, ac ni fydd oedi afresymol wrth ei roi);

(c) rhoi i ni a'n cynghorwyr proffesiynol fynediad ar adegau rhesymol i unrhyw asedau, cyfrifon, dogfennau a chofnodion perthnasol sydd o fewn dy reolaeth neu dy rym, er mwyn i ni a'n cynghorwyr proffesiynol eu harchwilio a gwneud copïau (byddwn ni'n talu'r gost) at ddibenion asesu'r Hawliad; a

(d) cymryd unrhyw gamau y gallwn wneud cais rhesymol i ti eu cymryd er mwyn osgoi'r Hawliad, dadlau yn ei erbyn, neu ei amddiffyn.

14.3 Byddi di'n ein hindemnio, gan gynnwys ein gweithwyr, ein hasiantau a'n contractwyr, yn erbyn unrhyw hawliadau neu achosion cyfreithiol a gaiff eu dwyn yn ein herbyn ni gan drydydd parti, sy'n deillio o esgeulustod, tor-cyfraith, neu achos o weithredu'n groes i'r Polisi Defnydd Derbyniol, yn wirioneddol neu'n honedig, ar dy ran di. Byddwn ni'n dy hysbysu ynghylch unrhyw hawliadau o'r fath ac yn rhoi gwybod i ti am ddatblygiad unrhyw hawliadau neu achosion o'r fath.

## 15. Eiddo Deallusol

15.1 Rwyt ti'n cytuno y bydd yr holl gyfreithiau perthnasol yn cael eu dilyn wrth i ti gymryd unrhyw gamau (neu os bydd camau'n cael eu cymryd ar dy ran) i gopïo, ailddosbarthu neu gyhoeddi unrhyw ddeunydd neu wybodaeth sy'n ddarostyngedig i unrhyw hawliau trydydd parti (gan gynnwys hawliau eiddo deallusol).

15.2 Os byddwn ni neu unrhyw rai o'n cwsmeriaid yn wynebu hawliad credadwy bod y Gwasanaethau'n tresmasu ar eiddo deallusol trydydd parti, ac nad oes modd i ni'n rhesymol gael gafael ar yr hawl i ddefnyddio'r elfen sy'n tresmasu neu addasu'r Gwasanaethau fel nad ydyn nhw'n tresmasu, yna gallwn derfynu'r Gwasanaethau drwy roi rhybudd rhesymol o naw deg (90) niwrnod fan lleiaf ac ni fydd gennyn ni unrhyw atebolrwydd wrth derfynu'r Gwasanaethau yn y fath fodd ac eithrio atebolrwydd i roi ad-daliad am y Gwasanaethau na ddefnyddiwyd pan fyddan nhw'n cael eu terfynu.

15.3 Pan fyddwn ni'n cyflenwi Meddalwedd i ti:

15.3.1 byddwn ni'n rhoi i ti drwydded nad yw'n unigryw ac na ellir ei throsglwyddo i ddefnyddio'r Meddalwedd er mwyn cael y Gwasanaethau;

15.3.2 fyddi di ddim, heb gydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw gennyn ni, yn copïo nac (ac eithrio lle caniateir hynny gan y gyfraith) yn dadgrynhoi neu'n addasu'r Meddalwedd, nac yn copïo unrhyw lawlyfrau neu ddogfennaeth; a

15.3.3 byddi di'n llofnodi unrhyw gytundeb y mae ei angen yn rhesymol ar berchennog yr hawlfraint yn y Meddalwedd er mwyn gwarchod buddiant y perchennog yn y Meddalwedd hwnnw.

15.4 Byddi di a byddwn ni'n cadw pob hawl, teitl a buddiant mewn cyfrinachau masnachol, dyfeisiau, hawlfreintiau ac eiddo deallusol eraill, ac mewn perthynas â'r rheini. Bydd unrhyw eiddo deallusol a ddatblygir gennyn ni wrth i'r Gwasanaethau gael eu rhoi yn eiddo i ni, oni bai ein bod wedi cytuno â thi ymlaen llaw yn ysgrifenedig y bydd gennyt fuddiant yn yr eiddo deallusol.

## 16. Gwybodaeth Gyfrinachol

16.1 Yn amodol ar gymal 16.2, byddi di a byddwn ni'n cadw'n gyfrinachol unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol (boed yn ysgrifenedig neu ar lafar) a geir gan y llall o dan y Cytundeb hwn neu mewn perthynas â'r Cytundeb hwn ac ni fydd y naill na'r llall yn datgelu'r Wybodaeth Gyfrinachol honno i unrhyw berson (yn ein achos ni, nid yw hyn yn cynnwys gweithwyr Cwmnïau Grŵp Spectrum Fibre y mae angen iddyn nhw gael y wybodaeth) heb gydsyniad ysgrifenedig y parti arall.

16.2 Ni fydd cymal 16.4 yn berthnasol i'r canlynol:

(a) unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi a hynny heb fynd yn groes i'r Cytundeb hwn;

Ogi yw enw masnachu: Spectrum Fibre Limited, a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 12883320. Spectrum Internet Limited, a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 07849485. Ogi Networks Limited a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 03625793. Swyddfa gofrestredig: Tŷ Hodge, 114-116 Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF10 1DY

(b) gwybodaeth a fu'n gyfreithlon ym meddiant y derbynnydd cyn iddi gael ei datgelu o dan y Cytundeb hwn;

(c) gwybodaeth a gafwyd gan drydydd parti y mae ganddo hawl i'w datgelu;

(d) gwybodaeth y gofynnir i barti ei datgelu ac y gellid ei gwneud yn ofynnol yn gyfreithiol iddo'i datgelu pe na bai'n gwneud hynny. Bydd y parti sy'n datgelu yn hysbysu'r llall yn ysgrifenedig o unrhyw ddatgeliad o'r fath;

(e) gwybodaeth sy'n ymateb i orchymyn llys neu broses gyfreithiol orfodol arall, a bwrw bod y naill a'r llall ohonon ni'n cytuno i roi rhybudd ysgrifenedig o saith niwrnod fan lleiaf cyn datgelu gwybodaeth gyfrinachol o dan y cymal hwn (neu rybudd prydlon cyn datgelu os nad yw rhybudd o saith niwrnod yn rhesymol bosibl), oni bai bod y gyfraith yn gwahardd rhoi'r fath rybudd. Pan fydd gwybodaeth wedi'i datgelu heb roi rhybudd ymlaen llaw rhaid i'r parti sy'n datgelu roi gwybod i'r parti arall cyn gynted ag sy'n bosibl wedi hynny (i'r graddau y caniateir hynny gan y gyfraith).

## 17. Materion y Tu Hwnt i'n Rheolaeth Resymol

17.1 Ni fyddi di ac ni fyddwn ni'n torri'r Cytundeb os bydd unrhyw fethiant i gyflawni rhwymedigaeth yn deillio o ddigwyddiad sydd y tu hwnt i reolaeth y parti dan sylw, fel methiant sylweddol ar ran y grid pŵer, methiant sylweddol y Rhyngrwyd, trychineb naturiol, rhyfel, terfysg, gwrthryfel, epidemig, streiciau neu weithredu diwydiannol arall a drefnwyd, terfysgaeth, neu ddigwyddiadau eraill o faint neu o fath nad yw'r diwydiant yn gyffredinol yn cymryd rhagofalon mewn perthynas â nhw.

## 18. Rhybuddion

18.1 Rhaid i rybuddion a ddarperir o dan y Cytundeb hwn fod yn ysgrifenedig a rhaid eu danfon â llaw neu eu hanfon drwy bost y talwyd amdano ymlaen llaw neu bost electronig fel a ganlyn:

(a) i ni yn y cyfeiriad a ddangosir ar y Ffurflen Archebu neu ar dy fil diwethaf neu i unrhyw gyfeiriad gwahanol y byddwn ni'n dy hysbysu yn ei gylch;

(b) i ti yn y cyfeiriad y gwnest ofyn i ni anfon biliau iddo, neu i gyfeiriad dy eiddo.

## 19. Aseinio

19.1 Ni chei di ac ni chawn ni aseinio na throsglwyddo unrhyw rai o'n hawliau na'n rhwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn heb gydsyniad ysgrifenedig y parti arall, ac eithrio y gallwn aseinio ein hawliau neu'n rhwymedigaethau (neu ein hawliau a'n rhwymedigaethau ill dau) i un o Gwmnïau Grŵp Spectrum Fibre heb dy gydsyniad di.

19.2 Gallwn ddefnyddio darparwyr gwasanaethau trydydd parti i roi'r holl Wasanaethau neu

rannau ohonyn nhw, ond ryn ni'n parhau'n atebol i ti o dan y Cytundeb hwn am Wasanaethau a roddir gan ein darparwyr trydydd parti i'r un graddau â phe baen ni wedi rhoi'r gwasanaethau hynny ein hunain.

## 20. Cyffredinol

20.1 Ni fydd methiant neu oedi gennyt ti neu gennyn ni wrth arfer unrhyw hawliau o dan y Cytundeb hwn yn gyfystyr ag ildio unrhyw hawl o'r fath, nac yn gweithredu fel modd o rwystro arfer neu orfodi unrhyw hawl o'r fath unrhyw bryd yn y dyfodol.

20.2 Os pennir gan lys sydd ag awdurdodaeth gymwys bod unrhyw ddarpariaeth yn y Cytundeb hwn yn annilys, yn anghyfreithlon neu'n anorfodadwy am unrhyw reswm, caiff y ddarpariaeth honno'i thorri ymaith a bydd gweddill y darpariaethau'n parhau mewn grym llawn ac yn cael effaith lawn fel pe bai'r Cytundeb hwn wedi'i gyflawni gyda'r ddarpariaeth annilys, anghyfreithlon neu anorfodadwy wedi'i hepgor.

## 21. Anghydfodau, Awdurdodaeth a'r Gyfraith Lywodraethol

21.1 Bydd Ogi'n ceisio datrys unrhyw anghydfodau â thi. Delir â phob anghydfod a chwyn yn unol â'n Cod Cwynion Cwsmeriaid, sydd i'w weld ar ein gwefan yn www.ogi.cymru. Gelli di gysylltu â'n tîm gofal cwsmeriaid i rannu dy gŵyn â ni, neu anfona e-bost i complaints@ogi.wales.

21.2 Os na fydd modd datrys anghydfod neu gŵyn drwy'r broses uwchgyfeirio a geir yn y Cod Cwynion Cwsmeriaid, gelli di geisio datrysiad drwy weithdrefn y dull amgen o ddatrys anghydfodau, ac mae manylion y weithdrefn hon i'w gweld yn ein Cod Cwynion Cwsmeriaid.

21.3 Ein nod yw rhoi profiad cadarnhaol i bobl bob amser. Serch hynny, o dro i dro, bydd rhywbeth yn mynd o'i le, ac os wyt ti'n teimlo nad yw ein gwasanaeth wedi cyflawni dy ddisgwyliadau, yna rho wybod i ni, er mwyn i ni allu gwella pethau at y dyfodol.

21.4 Mae cyfraith Cymru a Lloegr yn llywodraethu'r Cytundeb hwn ac rwyt ti ac ryn ni'n ymostwng i awdurdodaeth neilltuedig Llysoedd Cymru a Lloegr.

Ogi yw enw masnachu: Spectrum Fibre Limited, a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 12883320. Spectrum Internet Limited, a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 07849485. Ogi Networks Limited a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 03625793. Swyddfa gofrestredig: Tŷ Hodge, 114-116 Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF10 1DY

**Atodiad 1**

# Gwasanaethau Band Eang Ogi

Mae'r atodiad hwn, sef Atodiad 1, yn cynnwys telerau ac amodau sydd ond yn berthnasol i ti os wyt ti wedi dewis cael Gwasanaeth Band Eang Ogi. Mae'r atodiad hwn, sef Atodiad 1, yn ymwneud â Gwasanaethau Band Eang Ogi'n unig, ac nid yw'n berthnasol i Gwsmeriaid Gwasanaeth Band Eang Alt Ogi.

Os wyt ti wedi dewis cael Gwasanaethau Llais Ogi, bydd Atodiad 3 hefyd yn berthnasol i ti.

Os wyt ti'n Gwsmer Gwasanaeth Band Eang Ogi, darllena gynnwys yr atodiad hwn, sef Atodiad 1, yn ofalus. Mae'r telerau a'r amodau sydd ynddo yn ffurfio rhan o'r Cytundeb sy'n rhwymo'n gyfreithiol rhyngot ti a ni.

### Crynodeb

Ogi 150, Ogi 200, Ogi 300, Ogi 400, Ogi 500, Ogi 900 ac Ogi 1Gig yw ein gwasanaethau sy'n rhoi band eang ffeibr llawn i eiddo'r cwsmer, a'r rheini wedi'u seilio ar ein rhwydwaith ffeibr ni.

### Tymor y Contract

Mae gwasanaethau Ogi 150, Ogi 200, Ogi 300, Ogi 400, Ogi 500, Ogi 900 ac Ogi 1Gig yn cael eu cynnig o dan gontractau 12- mis a 24-mis. Mae Tymor y Contract sy'n berthnasol i'r Cytundeb hwn wedi'i bennu yn y Ffurflen Archebu.

### Gosod dy Wasanaethau Band Eang Ogi

Bydd ein peirianwyr, neu gwmni sy'n ein cynrychioli, yn gwneud y gwaith gosod. Byddan nhw hefyd yn gosod dy CPE (sef dy ONT a dy lwybrydd neu lwybryddion), gan gynnwys y llwybrydd neu'r llwybryddion wifi a fydd yn helpu i ddosbarthu dy gysylltiad o amgylch dy dŷ. (CPE yw “Customer Premise Equipment”, neu “Gyfarpar Eiddo Cwsmer”. ONT yw “Optical Network Terminal”, neu “Derfynell Rhwydwaith Optig”.) Sylwa y gall fod cyfyngiadau o ran ble y gellir lleoli dy CPE.

Mae'r llwybrydd neu'r llwybryddion wifi wedi'i/wedi'u cynnwys fel rhan o dy Wasanaethau Band Eang Ogi, ond gelli di hefyd ddewis defnyddio dy lwybrydd neu lwybryddion wifi presennol os byddai'n well gennyt ti.

Ogi yw enw masnachu: Spectrum Fibre Limited, a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 12883320. Spectrum Internet Limited, a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 07849485. Ogi Networks Limited a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 03625793. Swyddfa gofrestredig: Tŷ Hodge, 114-116 Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF10 1DY

Bydd y Ffurflen Archebu yn dangos pa fath o waith gosod y byddi di'n ei gael ac unrhyw gostau cysylltiedig (byddwn ni wedi cytuno ar hynny yn ystod y broses archebu). Efallai y bydd Ogi'n cysylltu i drafod unrhyw newidiadau i'r dull gosod â thi.

Byddwn ni'n dy atgoffa pryd mae dy amser gosod: efallai y bydd cosb i ni os na fyddwn ni'n gallu dod, neu gost i ti os na fyddi di gartref fel y bwriadwyd. Mae ein Canllaw Prisiau'n rhoi'r holl fanylion.

Mae mwy o wybodaeth am y broses osod yn https://ogi.cymru/cwsmeriaid/.

**Os yw dy eiddo eisoes wedi cael ei gysylltu**
Os bydd gennyt ti gyfarpar ryn ni eisoes wedi'i osod, ryn ni'n dal yn debygol drefnu ymweliad gosod i ofalu bod dy holl CPE yn gweithio fel y dylai.

**Dy Gyfarpar Eiddo Cwsmer (CPE)**

Mae dy Gyfarpar Eiddo Cwsmer (CPE) yn cynnwys Terfynell Rhwydwaith Optig (ONT) a dy lwybrydd neu lwybryddion Wi-Fi.

Bydd dy CPE yn cael ei gyflenwi a'i osod gennyn ni a bydd yn parhau'n eiddo i ni drwy gydol hyd y Cytundeb.

Bydd angen socedi plwg safonol ar yr ONT a'r llwybrydd neu'r llwybryddion. Dylai'r rhain fod o fewn 1 metr i'r CPE.

Bydd y CPE yn gofyn am Gyfeiriad Protocol Rhyngrwyd (IP) a byddwn ni hefyd yn defnyddio'r cyfle hwn i ddod o hyd i dy gyfeiriad MAC neu Reolydd Mynediad i Gyfryngau er mwyn ein galluogi i ganfod unrhyw CPE eraill yn dy eiddo a dy helpu gydag unrhyw broblemau cysylltu y gelli di'u cael yn y dyfodol.

Os wyt ti wedi dewis defnyddio dy lwybrydd neu lwybryddion Wi-Fi dy hun yn hytrach na llwybrydd neu lwybryddion ein partner, byddwn ni'n gyfrifol am gefnogi dy wasanaeth hyd at yr ONT yn unig. Dyma'r gwasanaeth **Gwifrau'n Unig** a grybwyllir yn fanylach isod, a rhaid dewis hwn yn ystod y broses archebu. Byddwn ni'n cynnig Taleb Eco Ogi i ti i ddiolch i gwsmeriaid am ddewis gwasanaeth Gwifrau'n Unig, gan fod hwnnw'n fwy ystyriol o'r amgylchedd.

### Dychwelyd dy lwybrydd neu lwybryddion i ni

- Bydd dy CPE – gan gynnwys dy ONT a dy lwybrydd neu lwybryddion – yn parhau'n eiddo i ni drwy gydol hyd y Cytundeb.
- Ar ddiwedd y Cytundeb, mae gofyn i ti ddychwelyd dy lwybrydd neu lwybryddion i ni. Mae'r broses yn syml: byddwn ni'n anfon pecyn postio y talwyd amdano ymlaen llaw atat, a'r cwbl fydd angen i ti ei wneud fydd rhoi'r caledwedd yn y pecyn hwn a dilyn y cyfarwyddiadau i ddychwelyd y pecyn i ni i'w ailgylchu. Byddi di'n gorfod talu costau os na fyddi di'n dychwelyd y llwybrydd neu'r llwybryddion. Darllena ein Canllaw Prisiau i gael gwybod rhagor.

### Cyflymder dy Gysylltiad Ogi

Gall y cyflymder y bydd dy gysylltiad yn ei gyrraedd amrywio am nifer o resymau, gan gynnwys faint o draffig sydd ar dy rwydwaith lleol a phroblemau ehangach gyda'r rhwydwaith rhyngrwyd ledled y Deyrnas Unedig a'r tu hwnt.

Bydd cysylltiad o leiaf 50% o'n cwsmeriaid yn cyrraedd y cyflymderau lawrlwytho ac uwchlwytho sydd wedi'u hysbysebu yn ystod yr oriau brig (8pm-10pm bob dydd). Gan mai cyflymderau cyfartalog yw'r rhain, dydyn nhw ddim wedi'u gwarantu.

Isafswm y cyflymder lawrlwytho y gelli di'i ddisgwyl yn ystod y cyfnod brig yw tua hanner y cyflymder sydd wedi'i hysbysebu. Does dim modd i ni warantu isafswm cyflymder uwchlwytho i ti.

Dyma grynodeb o'r cyflymder y gelli di ddisgwyl ei gael gennyn ni:

| | Cyflymder Lawrlwytho<br>Cyfartalog * ar Adegau<br>Brig | Isafswm y Cyflymder Lawrlwytho ar Adegau Brig | Cyflymder Uwchlwytho<br>Cyfartalog * ar Adegau<br>Brig |
|---|---|---|---|
| Ogi 150 | 150 Mbps | 75 Mbps | 15 Mbps |
| Ogi 200 | 200 Mbps | 100 Mbps | 20 Mbps |
| Ogi 300 | 300 Mbps | 150 Mbps | 30 Mbps |

| | Cyflymder Lawrlwytho<br><br>Cyfartalog * ar Adegau<br><br>Brig | Isafswm y Cyflymder Lawrlwytho ar Adegau Brig | Cyflymder Uwchlwytho<br><br>Cyfartalog * ar Adegau<br><br>Brig |
|---|---|---|---|
| Ogi 400 | 400 Mbps | 200 Mbps | 40 Mbps |
| Ogi 500 | 500 Mbps | 250 Mbps | 50 Mbps |
| Ogi 900 | 900 Mbps | 450 Mbps | 90 Mbps |
| Ogi 1Gig | 900 Mbps | 450 Mbps | 90 Mbps |

*Bydd o leiaf 50% o'n cwsmeriaid yn gallu cael y cyflymer hwn.

Byddwn ni wastad yn cadw golwg ar ein rhwydwaith ac yn ceisio sicrhau ei fod yn gweithio cystal ag y bo modd, ond gelli di hefyd brofi cyflymder dy gysylltiad drwy ddefnyddio Prawf Cyflymder.

Os bydd dy wir gyflymder yn parhau'n is na 25% o'r rhain, yna rho wybod i ni ac os na allwn ni wella pethau i ti o fewn 30 niwrnod yna gelli di adael dy gontract â ni yn rhad ac am ddim.

Os wyt ti'n gwsmer Ogi 150, Ogi 200, Ogi 300, Ogi 400 neu Ogi 500 gelli di ddewis yr opsiwn Double Up, i wella dy gyflymder uwchlwytho am ffi misol ychwanegol. Gall cwsmeriaid Ogi 900 neu Ogi 1Gig ddewis Super Up i gael gwasanaeth cymesur, a fydd yn golygu bod dy gyflymder uwchlwytho yr un fath â dy gyflymder lawrlwytho – a hynny am ffi ychwanegol:

| | Cyflymder Uwchlwytho<br><br>Cyfartalog ar Adegau Brig | Cyflymder Uwchlwytho Double Up | Cyflymder Uwchlwytho Super Up |
|---|---|---|---|
| Ogi 150 | 15 Mbps | 30 Mbps | |
| Ogi 200 | 20 Mbps | 40 Mbps | |

Ogi yw enw masnachu: Spectrum Fibre Limited, a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 12883320. Spectrum Internet Limited, a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 07849485. Ogi Networks Limited a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 03625793. Swyddfa gofrestredig: Tŷ Hodge, 114-116 Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF10 1DY

| | Cyflymder Uwchlwytho<br><br>Cyfartalog ar Adegau Brig | Cyflymder Uwchlwytho Double Up | Cyflymder Uwchlwytho Super Up |
|---|---|---|---|
| Ogi 300 | 30 Mbps | 60 Mbps | |
| Ogi 400 | 40 Mbps | 80 Mbps | |
| Ogi 500 | 50 Mbps | 100 Mbps | |
| Ogi 900 | 90 Mbps | | 900 Mbps |
| Ogi 1Gig | 90 Mbps | | 900 Mbps |

**Diffygion**

Gellir rhoi gwybod i'n tîm gofal cwsmeriaid am ddiffygion dros y ffôn, dros e-bost, drwy rhoi wybod am broblem, neu drwy lythyr. Cysyllta â'r tîm Gofal Cwsmeriaid drwy ffonio 029 2002 0550 neu ysgrifennu at Ogi, Hodge House, 114-116 Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1DY.

Diffygion ar ein rhwydwaith:

- os yw'r broblem oherwydd diffyg ar ein rhwydwaith, byddwn ni'n ceisio datrys y broblem cyn gynted ag y gallwn ni.
- byddwn ni'n anfon peiriannydd i ymchwilio, os bydd angen, ond os byddwn ni'n cytuno â thi i anfon peiriannydd ac nad oes modd dod o hyd i ddiffyg, efallai y bydd angen i ti dalu cost am alw'r peiriannydd. Mae ein Canllaw Prisiau'n rhoi rhagor o fanylion.

Diffygion gyda dy CPE, gan gynnwys dy lwybrydd neu lwybryddion wifi:

- os yw wyt ti yn Nhymor y Contract, a bod diffyg gyda'n llwybrydd neu'n llwybryddion, ac os nad wyt ti'n gwsmer Gwifrau'n Unig, byddwn ni'n rhoi eitem neu eitemau newydd yn lle'r eitem neu'r eitemau diffygiol a hynny'n rhad ac am ddim oni bai dy fod wedi achosi neu wedi cyfrannu at y diffyg drwy gamddefnyddio'r cyfarpar.

Ogi yw enw masnachu: Spectrum Fibre Limited, a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 12883320. Spectrum Internet Limited, a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 07849485. Ogi Networks Limited a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 03625793. Swyddfa gofrestredig: Tŷ Hodge, 114-116 Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF10 1DY

- os nad wyt ti yn Nhymor y Contract a bod ein llwybrydd Wi-Fi yn datblygu diffyg, bydd angen i ti dalu ffi gweinyddol a ffi danfon i gael un newydd. Mae ein Canllaw Prisiau'n rhoi rhagor o fanylion.
- os wyt ti wedi camddefnyddio'r llwybrydd neu'r llwybryddion Wi-Fi neu wedi achosi difrod iddo/iddyn nhw mewn ffordd arall, ac os nad wyt ti'n gwsmer Gwifrau'n Unig, yna bydd angen i ti dalu ffi am lwybrydd neu lwybryddion newydd. Mae ein Canllaw Prisiau'n rhoi rhagor o fanylion.
- os wyt ti'n gwsmer Gwifrau'n Unig ac wedi dewis defnyddio dy lwybrydd neu lwybryddion wifi dy hun, dim ond am y cysylltiad i'r ONT ryn ni'n gyfrifol.
- os byddi di wedi difrodi'r ONT neu'r cysylltiad ffeibr ei hun mewn unrhyw ffordd, a bod angen i ni drefnu ymweliad gan beiriannydd, yna bydd angen talu ffi gwasanaeth am alw'r peiriannydd. Bydd costau unrhyw waith y mae angen ei wneud, er enghraifft i osod ONT newydd yn lle'r un sydd wedi'i ddifrodi, i'w talu'n ychwanegol at hynny. Mae ein Canllaw Prisiau'n rhoi rhagor o fanylion.

Ni fydd rhai diffygion a phroblemau'n gysylltiedig o gwbl â'n rhwydwaith ni neu'r CPE ryn ni wedi'i gyflenwi i ti. Gallai'r broblem fod yn gysylltiedig â phroblemau rhyngrwyd yn rhywle arall, neu â rhai o'r dyfeisiau yn dy gartref di. Cer i www.ogi.cymru i gael rhagor o wybodaeth.

Os byddi di'n cael problemau parhaus â'r signal Wi-Fi yn dy gartref, efallai y gallwn ni uwchraddio dy wasanaeth Wi-Fi am ffi ychwanegol. Cysyllta â sales@ogi.wales neu 029 2002 2349 i gael rhagor o wybodaeth.

Os byddi di'n profi diffyg gyda'n rhwydwaith oherwydd y CPE ryn ni wedi'i osod ac nad oes modd datrys hynny'n unol â'r Cytundeb hwn, sgwrsia â'n tîm Gofal Cwsmeriaid i drafod y camau nesaf.

## Opsiynau Gwasanaethau

### Gwifrau'n Unig

Os nad wyt ti am gael llwybrydd neu lwybryddion wifi gennyn ni am ba bynnag reswm, gelli di ddewis cael gwasanaeth Gwifrau'n Unig yn ystod y broses archebu.

Mae gwasanaeth Gwifrau'n Unig yn cynnwys gwasanaeth band eang ffeibr sy'n terfynu yn dy ONT.

Gan fod y llwybrydd neu'r llwybryddion wifi yn rhan safonol o gost ein pecynnau, bydd y ffi misol wedi'i seilio ar y gyfradd safonol ar gyfer y gwasanaeth hwnnw.

Ogi yw enw masnachu: Spectrum Fibre Limited, a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 12883320. Spectrum Internet Limited, a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 07849485. Ogi Networks Limited a ymgorfforwyd ac a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru gyda'r rhif cwmni 03625793. Swyddfa gofrestredig: Tŷ Hodge, 114-116 Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF10 1DY

Fyddwn ni ddim yn darparu dy lwybrydd neu lwybryddion, ond byddwn ni'n rhoi Taleb Eco Ogi i ti i ddiolch am leihau'r angen am galedwedd, gan fod hynny'n fwy ystyriol o'r amgylchedd.

Os byddi di'n dewis gwasanaeth Gwifrau'n Unig, fyddwn ni ddim yn gyfrifol am berfformiad dy lwybrydd neu lwybryddion.

Dim ond ar ddechrau Tymor y Contract, a hwnnw'n un newydd, y gellir cael gwasanaeth Gwifrau'n Unig.

Os byddi di wedi cael llwybrydd wifi gennyn ni, bydd angen i ti ddychwelyd hwn i ni mewn cyflwr da ar ddiwedd Tymor y Contract presennol, neu bydd angen codi ffi am gyfarpar sydd heb ei ddychwelyd. Mae ein Canllaw Prisiau'n rhoi rhagor o fanylion.

Os hoffet ti uwchraddio i wasanaeth Gwifrau'n Unig, bydd angen i ti ddod â Thymor y Contract presennol i ben a dechrau Tymor y Contract o'r newydd gyda ni. Fydd dim rhaid i ti aros yn Nhymor y Contract presennol.

**Ychwanegiadau**

Os hoffet ti ychwanegu elfen newydd at dy becyn craidd, fel llwybrydd ychwanegol neu Wasanaeth Llais Ogi, cysyllta â sales@ogi.wales neu ffonia ni ar 029 2002 0520.

**Uwchraddio ac Israddio**

Os hoffet ti uwchraddio neu israddio cyflymder dy wasanaeth cysyllta â renewals@ogi.wales neu ffonia ni ar 029 2002 2349.

**Uwchraddio**

- Gelli di ddewis uwchraddio dy Wasanaeth Band Eang Ogi unrhyw bryd. Bydd y costau uwch yn berthnasol ar sail pro rata o'r bil nesaf a byddi di'n aros yn Nhymor y Contract presennol.
- Mae'n rhaid treulio isafswm tymor o 1 mis cyn y gelli di uwchraddio dy becyn, a fyddwn ni ddim yn codi ffi gweinyddol am uwchraddio.
- Os byddi di'n dechrau Tymor y Contract o'r newydd gyda ni, ac yn uwchraddio o becyn Ogi 150 i Ogi 300 neu Ogi 900, er enghraifft, byddi di'n cael CPE newydd gennyn ni a bydd rhaid i ti ddychwelyd dy hen CPE i ni. Mae'r broses yn syml: byddwn ni'n anfon pecyn postio y talwyd amdano ymlaen llaw atat, a'r cwbl fydd angen i ti ei wneud fydd rhoi'r caledwedd yn y pecyn hwn, galw yn dy Swyddfa Bost leol, a dychwelyd y pecyn i ni i'w ailgylchu. Byddi di'n gorfod talu costau os na fyddi di'n dychwelyd yr hen CPE. Mae ein Canllaw Prisiau'n rhoi mwy o wybodaeth.
- Os byddi di'n uwchraddio dy Wasanaeth Band Eang Ogi ond yn dewis aros yn Nhymor y Contract presennol, byddi di'n cadw dy CPE presennol tan y daw'r Cytundeb i ben.

Ogi is the trading name of: Spectrum Fibre Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 12883320. Spectrum Internet Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 07849485. Ogi Networks Limited incorporated and registered in England and Wales with company number 03625793. Registered office: Hodge House, 114-116 St. Mary Street, Cardiff CF10 1DY.

## Israddio

- Ni chei di israddio dy Wasanaeth Band Eang Ogi yn ystod 12 mis cyntaf Tymor y Contract. Ar ôl 12 mis, gelli di israddio dy Wasanaeth Band Eang Ogi, gan ddechrau Tymor y Contract o'r newydd, neu gan aros yn Nhymor y Contract sy'n weddill.
- Ni fydd angen talu ffi gweinyddol i israddio dy Wasanaeth Band Eang Ogi, ond efallai y bydd angen talu ffioedd ychwanegol gan y gallai fod angen i ni anfon cyfarpar newydd atat. Mae ein Canllaw Prisiau'n rhoi rhagor o fanylion.
- Efallai hefyd y bydd angen i ti ddychwelyd dy CPE presennol i ni. Byddwn ni'n rhoi gwybod i ti os bydd angen i ti ddychwelyd dy CPE i ni. Mae'r broses yn syml: byddwn ni'n anfon pecyn postio y talwyd amdano ymlaen llaw atat, a'r cwbl fydd angen i ti ei wneud fydd rhoi'r caledwedd yn y pecyn hwn, galw yn dy Swyddfa Bost leol, a dychwelyd y pecyn i ni i'w ailgylchu. Byddi di'n gorfod talu costau os na fyddi di'n dychwelyd yr hen CPE. Mae ein Canllaw Prisiau'n rhoi mwy o wybodaeth.

Ogi is the trading name of: Spectrum Fibre Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 12883320. Spectrum Internet Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 07849485. Ogi Networks Limited incorporated and registered in England and Wales with company number 03625793. Registered office: Hodge House, 114-116 St. Mary Street, Cardiff CF10 1DY.

**Atodiad 2**

# Gwasanaethau Band Eang Alt Ogi

Mae'r atodiad hwn, sef Atodiad 2, yn cynnwys telerau ac amodau sydd ond yn berthnasol i ti os wyt ti wedi dewis cael Gwasanaeth Band Eang Alt Ogi. Mae'r atodiad hwn, sef Atodiad 2, yn ymwneud â Gwasanaethau Band Eang Alt Ogi'n unig, ac nid yw'n berthnasol i Gwsmeriaid Gwasanaeth Band Eang Ogi.

Os wyt ti wedi dewis cael Gwasanaethau Llais Ogi, bydd Atodiad 3 hefyd yn berthnasol i ti.

Os wyt ti'n Gwsmer Gwasanaeth Band Eang Alt Ogi, darllena gynnwys yr atodiad hwn, sef Atodiad 2, yn ofalus. Mae'r telerau a'r amodau sydd ynddo yn ffurfio rhan o'r Cytundeb sy'n rhwymo'n gyfreithiol rhyngot ti a ni.

## Crynodeb

Ogi Alt 150, Ogi Alt 300 ac Ogi Alt 900 yw ein gwasanaethau amgen sy'n rhoi ffeibr i eiddo cwsmeriaid cartref neu breswyl, ar gyfer defnydd cartref, ac mae'r gwasanaethau hyn yn defnyddio rhwydwaith ffeibr llawn Openreach.

## Argaeledd y Gwasanaeth

Mae Gwasanaethau Band Eang Alt Ogi'n cael eu darparu dros rwydwaith ffeibr llawn Openreach mewn ardaloedd lle ryn ni wedi galluogi cyfnewidfa Openreach i ddarparu ein cynhyrchion. Rhaid i Openreach hefyd fod wedi sicrhau bod ffeibr llawn (Ffeibr i'r Eiddo / FTTP) ar gael yn dy ardal di. Cynhyrchion safonol Openreach yw'r gwasanaethau hyn. Byddwn ni'n dal i roi'r holl wasanaeth Gofal Cwsmeriaid i ti.

## Cyfnod y Contract

Mae gwasanaethau Ogi Alt 150, Ogi Alt 300 ac Ogi Alt 900 yn cael eu cynnig o dan gontractau 12- a 24-mis. Mae Tymor y Contract sy'n berthnasol i'r Cytundeb hwn wedi'i bennu yn y Ffurflen Archebu.

Os byddwn ni'n gallu dy gysylltu â'n rhwydwaith ffeibr llawn ni'n hunain ar unrhyw adeg yn ystod tymor y Cytundeb, byddwn ni'n cysylltu â thi i roi'r cyfle i ti newid i gysylltiad Ogi heb gost ychwanegol i ti.

Ogi is the trading name of: Spectrum Fibre Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 12883320. Spectrum Internet Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 07849485. Ogi Networks Limited incorporated and registered in England and Wales with company number 03625793. Registered office: Hodge House, 114-116 St. Mary Street, Cardiff CF10 1DY.

### Gosod dy Wasanaethau Band Eang Alt Ogi

Bydd Openreach yn ceisio gosod dy gysylltiad Ogi o fewn 7-14 diwrnod ar ôl i Ogi gael dy archeb, yn dibynnu ar ba mor brysur yw eu criwiau. Nhw hefyd fydd yn gosod dy lwybrydd.

Bydd Openreach yn cysylltu'n uniongyrchol â thi i roi gwybod i ti pryd maen nhw'n bwriadu ymweld â dy eiddo.

Bydd Ogi yn codi ffi gosod safonol Openreach am y gwaith osod.  Mae ein Canllaw Prisiau'n rhoi rhagor o fanylion.

### Taliadau Adeiladu Atodol

O bryd i'w gilydd, bydd Openreach yn gofyn am daliadau atodol pan fydd angen gosod seilwaith ychwanegol i ddarparu gwasanaeth newydd neu estynedig yn dy eiddo, neu mewn lleoliad arall lle na fydden nhw fel arall yn dewis ehangu eu rhwydwaith ar sail y meini prawf masnachol arferol.

Pan welir y bydd angen gwaith ychwanegol ar gyfer gosod, bydd Openreach yn rhoi gwybod i ni a byddwn ni'n cysylltu â thi i drafod hyn ac i gytuno ar unrhyw daliadau ychwanegol cyn i neb fwrw ymlaen â'r gwaith gosod ychwanegol.

### Dy Gyfarpar Eiddo Cwsmer (CPE)

Mae dy Gyfarpar Eiddo Cwsmer (CPE) yn cynnwys Terfynell Rhwydwaith Optig (ONT) a dy lwybrydd neu lwybryddion Wi-Fi.

Y tu mewn i dy gartref, bydd criw Openreach yn cysylltu'r cebl ffeibr optig â dy Derfynell Rhwydwaith Optig (ONT) ac yna'n cysylltu'r ONT â dy lwybrydd Wi-Fi.

Bydd dy CPE yn cael ei gyflenwi a'i osod gennyn ni neu gan beiriannydd Openreach a bydd yn parhau'n eiddo i ni drwy gydol hyd y Cytundeb.

Ogi is the trading name of: Spectrum Fibre Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 12883320. Spectrum Internet Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 07849485. Ogi Networks Limited incorporated and registered in England and Wales with company number 03625793. Registered office: Hodge House, 114-116 St. Mary Street, Cardiff CF10 1DY.

Bydd angen socedi plwg safonol ar yr ONT a'r llwybrydd neu'r llwybryddion. Dylai'r rhain fod o fewn 1 metr i'r CPE.

Bydd y CPE yn gofyn am Gyfeiriad Protocol Rhyngrwyd (IP) a byddwn ni hefyd yn defnyddio'r cyfle hwn i ddod o hyd i dy Gyfeiriad MAC neu Reolydd Mynediad i'r Cyfryngau er mwyn ein galluogi i ganfod unrhyw CPE eraill yn dy eiddo a dy helpu gydag unrhyw broblemau cysylltu y gelli di'u cael yn y dyfodol.

Nid oes opsiwn i ddefnyddio dy gyfarpar dy hun ac mae'r gwasanaeth yn gofyn am ddefnyddio ein llwybrydd Wi-Fi ni.

### Diogelwch

- Mae gan y Llwybrydd Wi-Fi Safonol rywfaint o nodweddion diogelwch ychwanegol. Mae'r canllaw gwybodaeth yn rhoi mwy o fanylion.

### Dychwelyd dy lwybrydd neu lwybryddion i ni

- Bydd dy CPE a dy lwybrydd neu lwybryddion yn parhau'n eiddo i ni drwy gydol hyd y Cytundeb.
- Ar ddiwedd y Cytundeb, bydd gofyn i ti ddychwelyd dy lwybrydd neu lwybryddion i ni. Mae'r broses yn syml: byddwn ni'n anfon pecyn postio y talwyd amdano ymlaen llaw atat, a'r cwbl fydd angen i ti ei wneud fydd rhoi'r caledwedd yn y pecyn hwn a dilyn y cyfarwyddiadau i ddychwelyd y pecyn i ni i'w ailgylchu. Byddi di'n gorfod talu costau os na fyddi di'n dychwelyd y llwybrydd neu'r llwybryddion. Darllena ein Canllaw Prisiau i gael gwybod rhagor.

### Cyflymder dy Gysylltiad

Gall y cyflymder y bydd dy gysylltiad yn ei gyrraedd amrywio am nifer o resymau, gan gynnwys faint o draffig sydd ar dy rwydwaith lleol a phroblemau ehangach gyda'r rhwydwaith rhyngrwyd ledled y Deyrnas Unedig a'r tu hwnt.

Mae ein cyflymderau lawrlwytho ac uwchlwytho sydd wedi'u hysbysebu yn is na'r cyflymderau lawrlwytho ac uwchlwytho cyfartalog sy'n bosibl drwy gysylltiad Openreach, a hynny i o leiaf 50% o'n cwsmeriaid yn ystod yr oriau brig (8pm-10pm bob dydd).

Ogi is the trading name of: Spectrum Fibre Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 12883320. Spectrum Internet Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 07849485. Ogi Networks Limited incorporated and registered in England and Wales with company number 03625793. Registered office: Hodge House, 114-116 St. Mary Street, Cardiff CF10 1DY.

Gan mai cyflymderau cyfartalog yw'r rhain, dydyn nhw ddim wedi'u gwarantu.

Mae isafswm y cyflymderau lawrlwytho ac uwchlwytho y gelli di'u disgwyl i'w gweld isod.

Dyma grynodeb o'r cyflymder y gelli di ddisgwyl ei gael gan dy Wasanaeth Band Eang Alt Ogi, yn ogystal ag isafswm y cyflymderau lawrlwytho ac uwchlwytho y mae Openreach yn eu gwarantu:

| | Cyflymder Lawrlwytho<br><br>Cyfartalog * ar Adegau<br><br>Brig | Isafswm y Cyflymder Lawrlwytho ar Adegau Brig | Cyflymder Uwchlwytho<br><br>Cyfartalog * ar Adegau<br><br>Brig |
|---|---|---|---|
| Ogi Alt 150 | 150 Mbps | 75 Mbps | 15 Mbps |
| Ogi Alt 300 | 300 Mbps | 110 Mbps | 30 Mbps |
| Ogi Alt 900 | 900 Mbps | 110 Mbps | 90 Mbps |

*Bydd o leiaf 50% o'n cwsmeriaid yn gallu cael y cyflymer hwn.

Byddwn ni wastad yn cadw golwg ar ein rhwydwaith ac yn ceisio sicrhau ei fod yn gweithio cystal ag y bo modd, ond gelli di hefyd brofi cyflymder dy gysylltiad di drwy ddefnyddio Prawf Cyflymder Ogi.

Os bydd dy wir gyflymder yn parhau'n is na 25% o'r rhain, yna rho wybod i ni ac os na allwn ni wella pethau i ti o fewn 30 niwrnod yna gelli di ddod a'r Cytundeb hwn â ni i ben heb orfod talu unrhyw ffioedd terfynu cynnar.

## Diffygion

Gellir rhoi gwybod i'n tîm gofal cwsmeriaid am ddiffygion dros y ffôn, dros e-bost, drwy rhoi wybod am broblem, neu drwy lythyr. Cysyllta â'r tîm Gofal Cwsmeriaid drwy ffonio 029 2002 0550 neu ysgrifennu at Ogi, Hodge House, 114-116 Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1DY.

Diffygion ar y rhwydwaith:

Ogi is the trading name of: Spectrum Fibre Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 12883320. Spectrum Internet Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 07849485. Ogi Networks Limited incorporated and registered in England and Wales with company number 03625793. Registered office: Hodge House, 114-116 St. Mary Street, Cardiff CF10 1DY.

- os yw'r broblem oherwydd diffyg ar y rhwydwaith, byddwn ni'n ceisio datrys y broblem gydag Openreach.

Diffygion gyda dy CPE, gan gynnwys dy lwybrydd neu lwybryddion wifi:

- os wyt ti yn Nhymor y Contract, a bod diffyg gyda dy lwybrydd neu lwybryddion, byddwn ni'n rhoi eitem neu eitemau newydd yn lle'r eitem neu'r eitemau diffygiol a hynny'n rhad ac am ddim oni bai dy fod wedi achosi neu wedi cyfrannu at y diffyg drwy gamddefnyddio'r cyfarpar.
- os nad wyt ti yn Nhymor y Contract a bod ein llwybrydd wifi yn datblygu diffyg, bydd angen i ti dalu ffi gweinyddol a ffi danfon i gael un newydd. Mae ein Canllaw Prisiau'n rhoi rhagor o fanylion.
- os wyt ti wedi camddefnyddio'r llwybrydd neu'r llwybryddion Wi-Fi neu wedi achosi difrod iddo/iddyn nhw mewn ffordd arall, yna bydd angen i ti dalu ffi am lwybrydd neu lwybryddion newydd. Mae ein Canllaw Prisiau'n rhoi rhagor o fanylion.
- os byddi di wedi difrodi'r ONT neu'r cysylltiad ffeibr ei hun mewn unrhyw ffordd, a bod angen i ni drefnu ymweliad gan beiriannydd, yna bydd angen talu ffi gwasanaeth am yr alwad. Bydd costau unrhyw waith y mae angen ei wneud, er enghraifft i osod ONT newydd yn lle'r un sydd wedi'i ddifrodi, i'w talu'n ychwanegol at hynny. Mae ein Canllaw Prisiau'n rhoi rhagor o fanylion.
- os bydd y broblem yn gysylltiedig â dy CPE, efallai hefyd y byddwn ni'n anfon peiriannydd Ogi os bydd angen hynny. Ond, os bydd peiriannydd Ogi yn cael ei alw ac nad yw'n dod o hyd i ddiffyg, yna gallwn godi ffi arnat am yr alwad. Mae ein Canllaw Prisiau'n rhoi rhagor o fanylion.
- os bydd peiriannydd Openreach yn cael ei alw ac nad yw'n dod o hyd i ddiffyg neu bod y diffyg oherwydd camddefnyddio'r cyfarpar, yna gallwn godi ffi arnat am yr alwad. Mae ein Canllaw Prisiau'n rhoi rhagor o fanylion.

Ni fydd rhai diffygion a phroblemau'n gysylltiedig o gwbl â'r rhwydwaith neu'r CPE ryn ni wedi'i gyflenwi i ti. Gallai'r broblem fod yn gysylltiedig â phroblemau rhyngrwyd yn rhywle arall, neu â rhai o'r dyfeisiau yn dy gartref di. Cer i www.ogi.cymru i gael rhagor o wybodaeth.

Os byddi di'n cael problemau parhaus â'r signal wifi yn dy gartref, efallai y gallwn ni uwchraddio dy wasanaeth wifi am ffi ychwanegol. Cysyllta â sales@ogi.wales neu ffonia 029 2002 0520 i gael rhagor o wybodaeth.

Os byddi di'n profi diffyg gyda'n rhwydwaith oherwydd y CPE ryn ni wedi'i osod ac nad oes modd datrys hynny'n unol â'r Cytundeb hwn, sgwrsia â'n tîm Gofal Cwsmeriaid i drafod y camau nesaf.

Ogi is the trading name of: Spectrum Fibre Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 12883320. Spectrum Internet Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 07849485. Ogi Networks Limited incorporated and registered in England and Wales with company number 03625793. Registered office: Hodge House, 114-116 St. Mary Street, Cardiff CF10 1DY.

**Ychwanegiadau**

Os hoffet ti ychwanegu elfen newydd at dy becyn craidd, fel llwybrydd ychwanegol neu Wasanaeth Llais Ogi, cysyllta â sales@ogi.wales neu ffonia 029 2002 0520.

Uwchraddio ac Israddio

Os hoffet ti uwchraddio neu israddio cyflymder dy wasanaeth, cysyllta â sales@ogi.wales neu ffonia 029 2002 0520.

**Uwchraddio**

- Gelli di ddewis uwchraddio dy Wasanaeth Band Eang Alt Ogi unrhyw bryd. Bydd y costau uwch yn berthnasol ar sail pro rata o'r bil nesaf a byddi di'n aros yn Nhymor y Contract presennol.
- Bydd Openreach yn gwneud y gwaith i dy uwchraddio, a gan amlaf bydd wedi'i gwblhau o fewn 24 awr i dy gais.
- Mae'n rhaid treulio isafswm tymor o 1 mis cyn y gelli di uwchraddio dy becyn, a fyddwn ni ddim yn codi ffi gweinyddol am uwchraddio.
- Os byddi di'n dechrau Tymor y Contract o'r newydd gyda ni, ac yn uwchraddio o becyn Ogi Alt 150 i Ogi Alt 300 neu Ogi Alt 900, er enghraifft, byddi di'n cael CPE newydd gennyn ni a bydd yn rhaid i ti ddychwelyd dy hen CPE i ni. Mae'r broses yn syml: byddwn ni'n anfon pecyn postio y talwyd amdano ymlaen llaw atat, a'r cwbl fydd angen i ti ei wneud fydd rhoi'r caledwedd yn y pecyn hwn, galw yn dy Swyddfa Bost leol, a dychwelyd y pecyn i ni i'w ailgylchu. Byddi di'n gorfod talu costau os na fyddi di'n dychwelyd yr hen CPE. Mae ein Canllaw Prisiau'n rhoi mwy o wybodaeth.
- Os byddi di'n uwchraddio dy Wasanaeth Band Eang Ogi ond yn dewis parhau yn Nhymor y Contract presennol, byddi di'n cadw dy CPE presennol tan y daw'r Cytundeb i ben.

**Israddio**

- Ni chei di israddio dy Wasanaeth Band Eang Alt Ogi yn ystod 12 mis cyntaf y Cytundeb. Ar ôl 12 mis, gelli di israddio dy Wasanaeth Band Eang Ogi, gan ddechrau Tymor y Contract o'r newydd, neu gan gadw Tymor y Contract sy'n weddill.
- Ni fydd angen talu ffi gweinyddol i israddio dy Wasanaeth Band Eang Alt Ogi, ond efallai y bydd angen talu ffioedd ychwanegol gan y gallai fod angen i ni anfon cyfarpar newydd atat. Mae ein Canllaw Prisiau'n rhoi rhagor o fanylion.
- Efallai hefyd y bydd angen i ti ddychwelyd dy CPE presennol i ni. Byddwn ni'n rhoi gwybod i ti os bydd angen i ti ddychwelyd dy CPE i ni. Mae'r broses yn syml: byddwn

Ogi is the trading name of: Spectrum Fibre Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 12883320. Spectrum Internet Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 07849485. Ogi Networks Limited incorporated and registered in England and Wales with company number 03625793. Registered office: Hodge House, 114-116 St. Mary Street, Cardiff CF10 1DY.

ni’n anfon pecyn postio y talwyd amdano ymlaen llaw atat, a’r cwbl fydd angen i ti ei wneud fydd rhoi’r caledwedd yn y pecyn hwn, galw yn dy Swyddfa Bost leol, a dychwelyd y pecyn i ni i’w ailgylchu. Byddi di’n gorfod talu costau os na fyddi di’n dychwelyd yr hen CPE. Mae ein Canllaw Prisiau’n rhoi mwy o wybodaeth.

Ogi is the trading name of: Spectrum Fibre Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 12883320. Spectrum Internet Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 07849485. Ogi Networks Limited incorporated and registered in England and Wales with company number 03625793. Registered office: Hodge House, 114-116 St. Mary Street, Cardiff CF10 1DY.

**Atodiad 3**

# Gwasanaethau Llais Ogi

Mae'r atodiad hwn, sef Atodiad 3, yn cynnwys telerau ac amodau sydd ond yn berthnasol i ti os wyt ti wedi dewis cael Gwasanaeth Llais Ogi. Mae'r atodiad hwn, sef Atodiad 3, yn ymwneud â Gwasanaethau Llais Ogi yn unig, ac nid yw'n berthnasol os wyt ti wedi dewis peidio â chael Gwasanaeth Llais Ogi.

Os wyt ti'n gwsmer Gwasanaeth Llais Ogi, darllena gynnwys yr atodiad hwn, sef Atodiad 3, yn ofalus. Mae'r telerau a'r amodau sydd ynddo yn ffurfio rhan o'r Cytundeb sy'n rhwymo'n gyfreithiol rhyngot ti a ni.

## Crynodeb

Gwasanaeth llais yw Gwasanaeth Llais Ogi a hwnnw'n cael ei gynnig i gwsmeriaid cartref neu preswyl at ddefnydd yn y cartref, gan ddefnyddio rhwydwaith ffeibr llawn Ogi neu Openreach, yn dibynnu a wyt ti'n Gwsmer Gwasanaeth Band Eang Ogi neu Wasanaeth Band Eang Alt Ogi.

Er y bydd dy brofiad teleffoni'n debyg i wasanaeth ffôn arferol, nid yw Gwasanaeth Llais Ogi'n dibynnu ar linellau ffôn copr traddodiadol. Mae'n darparu gwasanaeth tebyg i deleffoni, ond dros y rhyngrwyd.

**Gan fod Gwasanaethau Llais Ogi yn cael eu darparu dros y rhyngrwyd, sylwa na fyddan nhw'n gweithio os bydd y trydan yn torri neu os bydd dy ryngrwyd yn methu. Ni fydd modd deialu 999 na gwneud galwadau brys nac unrhyw alwadau eraill yn yr amgylchiadau hyn. Dylet sicrhau bod gennyt ti ffordd arall o wneud galwad ffôn mewn argyfwng, fel ffôn symudol neu linell dir draddodiadol wrth gefn yn ogystal â dy Wasanaeth Llais Ogi.**

## Argaeledd y Gwasanaeth

Mae Gwasanaeth Llais Ogi yn cael ei ddarparu gan ddefnyddio system teleffoni sy'n cael ei darparu gennyn ni ac sy'n rhan o'n rhwydwaith ni. Mae'r system wedi'i chysylltu â'r Rhwydwaith Ffonau Switsys Cyhoeddus drwy ddarparwr trydydd parti.

Dim ond fel ychwanegiad at ein Gwasanaethau Band Eang Ogi a'n Gwasanaeth Band Eang Alt Ogi y mae Gwasanaeth Llais Ogi'n cael ei gynnig.

Ogi is the trading name of: Spectrum Fibre Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 12883320. Spectrum Internet Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 07849485. Ogi Networks Limited incorporated and registered in England and Wales with company number 03625793. Registered office: Hodge House, 114-116 St. Mary Street, Cardiff CF10 1DY.

## Cyfnod y Contract

Gelli di ddewis cael Gwasanaeth Llais Ogi yn ystod y broses archebu unrhyw bryd tra bo'r Cytundeb mewn grym, ac eithrio yn ystod y 30 niwrnod olaf cyn i'r Cytundeb ddod i ben. Ni fydd ychwanegu Gwasanaeth Llais Ogi at dy Wasanaeth Band Eang Ogi neu dy Wasanaeth Band Eang Alt Ogi yn effeithio ar hyd y Cytundeb.

Gelli di ddewis peidio â chael Gwasanaeth Llais Ogi unrhyw bryd, drwy roi o leiaf Un Mis o rybudd i ni.

Bydd Gwasanaeth Llais Ogi yn dechrau ar unwaith. Os byddi di'n gwneud cais i newid dy becyn galwadau bydd hyn yn digwydd ar ddechrau'r cyfnod bilio nesaf.

## Dy rif

Gelli di ddewis naill ai 'symud' dy rif ffôn presennol i Wasanaeth Llais Ogi neu gael rhif ffôn newydd gennyn ni. Os byddi di'n dewis cael rhif newydd, byddi di'n cael rhif daearyddol. Byddi di'n 'rhentu' y rhif hwn gennyn ni, a bydd y costau sy'n cael eu codi am hynny'n ffurfio rhan o dy ffi misol am y gwasanaeth.

Os gwnei di gais am hynny, bydd partner trydydd parti yn gofalu am y broses o symud y rhif, ac yn gyffredinol mae amser arwain o 5 diwrnod ar gyfer hynny, er y gall gymryd hwy. Bydd rhif dros dro'n cael ei ddarparu ar ôl dechrau'r gwasanaeth i'w ddefnyddio tra bo'r rhif yn cael ei symud.

Os byddi di'n terfynu dy Wasanaeth Llais Ogi ac os hoffet ti symud dy rif i ddarparwr arall, efallai y byddwn ni'n codi ffi arnat am y costau gweinyddol. Mae ein Canllaw Prisiau'n rhoi rhagor o fanylion.

## Cyfraddau Galwadau

Bydd cyfraddau'n cael eu defnyddio ar gyfer pob galwad ar sail tabl cyfraddau, amser y dydd, hyd yr alwad, a'r cynllun galwadau rwyt ti wedi'i ddewis. Mae ein Canllaw Prisiau'n rhoi rhagor o fanylion.

Ni fydd angen talu am alwadau i 999, 112, 101, 111 a galwadau 'am ddim i'r galwr' (sy'n dechrau â 080). Mae hyn yn cynnwys rhifau sydd â 116 o'u blaen.

## Bilio

Os byddi di'n dewis canslo dy Wasanaeth Llais Ogi, byddwn ni'n stopio codi tâl arnat o'r dyddiad canslo y cytunwyd arno. Bydd unrhyw daliadau a fydd yn berthnasol yn ystod y cyfnod olaf yn cael eu cynnwys ar dy fil nesaf. Byddwn ni'n rhoi credyd ar dy fil ar gyfer

Ogi is the trading name of: Spectrum Fibre Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 12883320. Spectrum Internet Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 07849485. Ogi Networks Limited incorporated and registered in England and Wales with company number 03625793. Registered office: Hodge House, 114-116 St. Mary Street, Cardiff CF10 1DY.

unrhyw daliadau a godwyd am rentu rhif sy'n ymwneud â'r cyfnod ar ôl i Wasanaeth Llais Ogi ddod i ben.

## Canslo

Gweler adran 11 yn y prif delerau ac amodau'n rhoi mwy o wybodaeth.

Mae Gwasanaeth Llais Ogi yn wasanaeth ychwanegol a dim ond i gwsmeriaid Gwasanaeth Band Eang Ogi ryn ni'n ei ddarparu.

## Gosod dy wasanaeth

Os byddi di wedi archebu dy Wasanaeth Llais Ogi ar yr un pryd â phan archebaist Wasanaeth Band Eang Ogi neu Wasanaeth Band Eang Alt Ogi, bydd dy Wasanaeth Llais Ogi'n dechrau ar yr un pryd â dy Wasanaeth Band Eang Ogi neu dy Wasanaeth Band Eang Alt Ogi. Mae Atodiad 1 neu Atodiad 2, fel sy'n berthnasol, yn rhoi mwy o fanylion.

Os byddi di'n ychwanegu Gwasanaethau Llais Ogi ar ôl gosod dy Wasanaeth Band Eang Ogi neu dy Wasanaeth Band Eang Alt Ogi, byddwn ni'n dechrau dy Wasanaeth Llais Ogi o bell o fewn dau ddiwrnod gwaith.

Pan fyddi di wedi cysylltu dy gyfarpar ffôn, gelli di ddefnyddio dy Wasanaeth Llais Ogi yn unol â'r Cytundeb hwn, gan gynnwys y pecyn a'r lefel gwahardd galwadau y cytunwyd arno.

Ni fyddwn ni, ac ni fydd ein partneriaid trydydd parti, yn cysylltu unrhyw wifrau na chyfarpar teleffoni i gwsmeriaid. Dy gyfrifoldeb di yw hyn.

## Cynlluniau Galwadau

Mae dy Wasanaeth Llais Ogi'n cynnwys cynnal dy rif ffôn a rhoi pecyn galwadau i ti – mae modd dewis un o ddau. Mae taliadau misol ar gyfer y rhain. Pan fyddi di'n archebu dy Wasanaeth Llais Ogi, rhaid i ti ddewis naill ai:

- Pecyn Gyda'r Nos a Phenwythnosau Llais Ogi. Mae hwn yn cynnwys galwadau gyda'r nos ac ar benwythnosau i linellau tir a rhifau'r DU a galwadau dros y we unrhyw bryd.
- Pecyn Unrhyw Bryd Llais Ogi. Mae hwn yn cynnwys galwadau unrhyw bryd i ffonau symudol a llinellau tir yn y DU.

Mae galwadau rhad ac am ddim i gwsmeriaid eraill Gwasanaeth Llais Ogi wedi'u cynnwys yn y naill becyn a'r llall.

Gelli di ddewis newid dy becyn Gwasanaeth Llais Ogi unrhyw bryd. Serch hynny, bydd unrhyw newid yn digwydd ar ddechrau dy gyfnod bilio nesaf.

Os hoffet ti newid y Gwasanaeth Llais Ogi rwyt ti'n ei gael gennyn ni, cysyllta â renewals@ogi.wales neu ffonia ni ar 029 2002 2349.

Mae dy gynllun galwadau'n cynnwys 3,000 o funudau bob mis. Mae'r cyfyngiad defnydd teg hwn wedi'i seilio ar faint o alwadau y gellid eu disgwyl yn rhesymol gan rywun sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn y cartref. Bydd unrhyw alwadau y tu fas i'r pecynnau hyn, os ydyn nhw'n cael eu caniatáu, yn costio'r swm diofyn a hysbysebwyd ar gyfer y lleoliad y gwneir yr alwad iddo. Mae ein Canllaw Prisiau'n rhoi rhagor o fanylion.

Mae'r cyfnodau amser wedi'u diffinio fel hyn:

| | |
|---|---|
| Gyda'r Nos | Llun-Gwen, cyn 7am, ar ôl 7pm |
| Penwythnosau | Sad-Sul, unrhyw bryd |

Mae Gwasanaeth Llais Ogi hefyd yn cynnwys ffi cyson am gynnal a darparu dy rif daearyddol. Mae ein Canllaw Prisiau'n rhoi rhagor o fanylion.

### Capio Galwadau

Ar gyfer galwadau y tu allan i dy becyn, byddwn ni'n gosod cap bob mis. Mae ein cap diofyn yn £20 ym mhob cylch bilio, neu gelli di wneud cais i osod hwn ar £5 pe bai'n well gennyt ti. Os hoffet ti newid y cap diofyn, rhaid i ti ddweud wrthyn ni pan fyddi di'n archebu dy Wasanaeth Llais Ogi.

Os byddi di'n gwario mwy na'r cap, byddwn ni'n terfynu unrhyw alwadau sydd ar y gweill, a fydd dim modd i ti wneud rhagor o alwadau sy'n costio arian tan y bydd y cap wedi'i ailosod yn y cylch bilio nesaf. Ni fydd cyrraedd y cap yn effeithio ar dy allu i wneud y galwadau sydd wedi'u cynnwys yn dy gynllun.

Pan fyddi di'n cael Gwasanaeth Llais Ogi, ac wedi cael Gwasanaethau Llais Ogi am o leiaf fis ac wedi talu o leiaf un bil am Wasanaethau Llais Ogi, gelli di wneud cais unrhyw bryd i gynyddu dy gap fesul £10 hyd at uchafswm o £60. Bydd y cap newydd yn para ar sail fisol, a bydd y costau cysylltiedig wedi'u cynnwys ym mil y mis hwnnw.

Mae'r Canllaw Prisiau'n rhoi rhagor o fanylion.

### Nodweddion y Gwasanaeth

### Nodweddion safonol

Mae Gwasanaeth Llais Ogi'n cynnwys y nodweddion canlynol yn safonol:

- Adnabod Rhif Daearyddol. Mae hyn yn golygu y bydd yn gallu llwybro galwad leol a

ddeialwyd heb y rhagddodiad daearyddol / y cod safonol.

— Adnabod y Llinell sy'n Galw. Mae hyn yn golygu, pan fydd dy set law yn caniatáu hynny, y bydd modd dangos pa linell sy'n galw.  Hynny yw, bydd rhif ffôn y sawl sydd wedi deialu wedi'i ddangos ar y set law.
— Peidio â Dangos y Llinell sy'n Galw. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl i ti beidio â dangos dy linell dy hun wrth alw, a hynny drwy ddeialu 141 cyn y rhif rwyt ti am ei gyrraedd, fel nad oes modd i'r sawl sy'n derbyn yr alwad weld y rhif sy'n galw wrth iddi gael ei gwneud neu ar ôl yr alwad.

### Nodweddion opsiynol

— Negeseuon llais. Mae gwasanaeth negeseuon llais ar gael am ffi misol ychwanegol. Bydd y system negeseuon llais yn storio hyd at 20 o negeseuon, ar gyfartaledd o 1 munud y neges. Mae modd cadw negeseuon am hyd at 6 mis. Byddwn ni'n rhoi gwybod i ti bod gennyt ti neges drwy dôn bwls pan fyddi di'n codi'r set law. Os hoffet ti ychwanegu'r gwasanaeth negeseuon llais at dy becyn Llais Ogi, rho wybod i ni pan fyddi di'n prynu pecyn neu unrhyw bryd drwy gysylltu â'r gwasanaethau i gwsmeriaid. Mae ein Canllaw Prisiau'n rhoi rhagor o fanylion.

### Gwahardd Galwadau

Bydd galwadau i wasanaethau rhyngwladol a chyfraddau uwch yn cael eu gwahardd oni bai dy fod yn dewis ychwanegu galwadau cyfradd uwch a/neu leoliadau rhyngwladol at dy becyn, a hynny drwy ffonio 029 2002 0520.

Efallai y bydd rhai lleoliadau cyfradd uwch wedi'u gwahardd fel mater o drefn, a fydd dim modd dileu'r gwaharddiadau hyn. I gael rhagor o wybodaeth, cer i'n gwefan yn www.ogi.cymru.

Mae ein Canllaw Prisiau'n rhoi manylion prisiau galwadau i wasanaethau rhyngwladol a chyfradd uwch.

### Galwadau sy'n Para'n Hir

I dy stopio rhag cael bil anferth ar ddamwain, mae pob galwad ac eithrio'r rheini i rifau rhadffôn wedi'u capio ar 60 munud. Bydd modd i ti roi'r ffôn i lawr ac ailddeialu i barhau â'r sgwrs os wyt ti'n dymuno.

Ogi is the trading name of: Spectrum Fibre Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 12883320. Spectrum Internet Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 07849485. Ogi Networks Limited incorporated and registered in England and Wales with company number 03625793. Registered office: Hodge House, 114-116 St. Mary Street, Cardiff CF10 1DY.

**Diffygion**

Gellir rhoi gwybod i'n tîm gofal cwsmeriaid am ddiffygion dros y ffôn, dros e-bost, drwy rhoi wybod am broblem, neu drwy lythyr. Cysyllta â'r tîm Gofal Cwsmeriaid drwy ffonio 029 2002 0550 neu ysgrifennu at Ogi, Hodge House, 114-116 Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1DY.

Os bydd y broblem oherwydd diffyg gyda'r rhwydwaith ffeibr, dy Derfynell Rhwydwaith Optig (ONT) neu lwybrydd neu lwybryddion Ogi, byddwn ni'n datrys y mater fel yr amlinellir yn y Cytundeb hwn.

Ti fydd yn berchen ar dy holl gyfarpar cyflwyno neu ddyfeisiau. Nid yw Ogi'n gyfrifol am unrhyw ddiffygion â'r cyfarpar hwn.

Ogi is the trading name of: Spectrum Fibre Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 12883320. Spectrum Internet Limited, incorporated and registered in England and Wales with company number 07849485. Ogi Networks Limited incorporated and registered in England and Wales with company number 03625793. Registered office: Hodge House, 114-116 St. Mary Street, Cardiff CF10 1DY.